**COFNODION**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 26 Mawrth 2003 |
| **Amser:** | 9.00 tan 12.30pm |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 1, Cynulliad Cenedlaethol Cymru |
| **Yn Bresennol:** | |
| **Aelodau** | Rhodri Glyn Thomas (Plaid Cymru, Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr, Cadeirydd)<br><br>Jenny Randerson (Democratiaid Rhyddfrydol, Canol Caerdydd, Gweinidog y Cynulliad)<br><br>Owen John Thomas (Plaid Cymru, Canol De Cymru)<br><br>Lorraine Barrett (Llafur, De Caerdydd a Phenarth)<br><br>Delyth Evans (Llafur, Canolbarth a Gorllewin Cymru)<br><br>Alison Halford (Llafur, Delyn)<br><br>Dafydd Wigley (Plaid Cymru, Caernarfon)<br><br>Glyn Davies (Ceidwadwyr, Canolbarth a Gorllewin Cymru) |
| **Swyddogion** | Arthur Emyr (Y Gyfarwyddiaeth Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Iaith Gymraeg)<br><br>Peter Harding (Y Gyfarwyddiaeth Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Iaith Gymraeg)<br><br>Margaret Evans (Y Gyfarwyddiaeth Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Iaith Gymraeg) |
| **Ysgrifenyddiaeth** | Marie Knox: Pennaeth MRCS |
| | Lynsey Hazzard: Dirprwy Glerc<br><br>Gareth Woodhead: Swyddog Gweinyddol |

**9.00am tan 9.05am**

**Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau, eilyddion a datganiadau o fuddiant**

0. Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r Pwyllgor ac aelodau'r cyhoedd.
1. Cafwyd ymddiheuriadau gan Rosemary Butler. Nid oedd unrhyw un yn bresennol ar ei rhan.
2. Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau o'r gofyniad i ddatgan buddiant, yn unol â Rheol Sefydlog 4.5. Gwnaed y datganiadau canlynol:

   Dafydd Wigley - Cyflogir ei wraig yn sector y celfyddydau. Dirprwy Lywydd Gwyl Jazz Aberhonddu ac yn gysylltiedig â Gwyl Cricieth.

   Rhodri Glyn Thomas - Aelod o fwrdd cais Caerdydd i fod yn Brifddinas Diwylliant Ewrop 2008

**9.05am tan 10.00am**

**Eitem 2: Cyngor Celfyddydau Cymru (CCC) - Strategaeth 5 Mlynedd ar Ddatblygu'r Celfyddydau 2002-07**

CC 06-03(p.1)

Cyflwynwyr: Peter Tyndall, Prif Weithredwr, Sybil Crouch, Cadeirydd

2.1 Gofynnwyd i'r Pwyllgor roi sylwadau ar Strategaeth 5 Mlynedd CCC ar Ddatblygu'r Celfyddydau, a lansiwyd gan Rhodri Glyn Thomas yng Nghanolfan Grefft Rhuthun a chan y Gweinidog yn Crefft yn y Bae, Caerdydd. Nodwyd y pwyntiau a ganlyn:

- Roedd y Strategaeth yn ceisio adlewyrchu ehangder ac ansawdd y celfyddydau yng Nghymru ac roedd yn ymgorffori polisi y Cynulliad fel y'i nodir yn Creative Future: Cymru Creadigol. Y nod tymor hir oedd gwella sefydlogrwydd ariannol ac artistig y celfyddydau yng Nghymru.
- Prif elfennau'r strategaeth 5 mlynedd oedd strwythur ddatganoledig ar gyfer CCC a chynlluniau gweithredu arbenigol a thrawsbynciol, yn mynd i'r afael â meysydd gwaith nad oedd yn perthyn i ffurf benodol o gelfyddyd. Byddai 12 cynllun gweithredu, 5 yn canolbwyntio ar y prif feysydd celfyddyd sef, Cerddoriaeth, Dawns, Drama, Llenyddiaeth a Chelf a Chrefftau Gweledol, gyda 7 cynllun ychwanegol yn mynd i'r afael â materion celfyddyd ehangach, gan gynnwys datblygu cyfalaf a chynulleidfaoedd.

**Prif amcanion CCC oedd:**

- Gweithio ar seilwaith y celfyddydau
- Buddsoddi mewn datblygiad artistig
- Annog pobl o bob oedran a chymuned i gymryd rhan
- Gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol ynghylch cyllid
- Gwella eiriolaeth ar ran y celfyddydau yng Nghymru
- Gwella mynediad i'r celfyddydau ym mhob rhan o Gymru.

**Blaenoriaethau'r cynllun corfforaethol presennol oedd:**

- Theatr Genedlaethol Gymraeg
- Theatr i Bobl Ifanc
- Cronfa Celfyddydau i'r Ifanc
- Datblygu Polisi a Phrosiect
- Blwyddyn Pobl Anabl
- Cynlluniau Grant

**Blaenoriaethau cynllun corfforaethol y dyfodol oedd:**

- Theatr Ieuenctid - (theatr gan bobl ifanc yn hytrach nag ar gyfer pobl ifanc)
- Ehangu mynediad at ddrama
- Cynllun Gweithredu Dawns
- Celf a Chrefftau Gweledol
- Refeniw ar gyfer datblygiadau cyfalaf mawr

**Mae'r llythyr cylch gorchwyl ar gyfer 2002-2003 yn blaenoriaethu:**

- Theatr Genedlaethol Gymraeg
- Theatr mewn Addysg
- Blwyddyn Pobl Anabl
- Sefydlogi Opera Cenedlaethol Cymru
- Trosglwyddo swyddogaethau i Gyngor Llyfrau Cymru
- Celfyddyd y tu allan i Gaerdydd
- Cais Caerdydd i fod yn Brifddinas Diwylliant Ewrop yn 2008
- Roedd yn bwysig bod mynediad llawn at y celfyddydau drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.
- Roedd cynnydd o 33% mewn buddsoddiad dros ddwy flynedd wedi cael effaith arwyddocaol ar beth y gallai CCC ei gyflawni. Er gwaethaf y gostyngiad yn arian y loteri, byddai CCC yn parhau i ariannu artistiaid unigol a byddai'n sicrhau eu bod yn cael eu diogelu yn erbyn y gostyngiad yn arian y loteri.
- Roedd y sector diwylliannol gwirfoddol yn chwarae rhan sylweddol yn y celfyddydau yng Nghymru. Roedd gweithgor wedi'i benodi a byddai'n dechrau cwrdd yn fuan.
- Roedd buddsoddiad cyhoeddus yn y celfyddydau yn cyfrif am 0.5% o wariant cyhoeddus a chan hynny, roedd buddsoddiad o'r fath yn sicrhau canlyniadau anghymesur o dda.

2.2 Cafwyd sesiwn holi ac ateb i ddilyn lle cafodd y pwyntiau canlynol eu nodi:

- Roedd cytundebau ariannu refeniw tair-blynedd ar gyfer sefydliadau yn ystyried cynnydd mewn chwyddiant, a oedd yn cyfrif am tua £350,000 o gyllideb CCC. Byddai angen buddsoddiad ychwanegol yn ogystal â'r hyn a oedd yn cael ei ddarparu ar hyn o bryd ar gyfer unrhyw ddatblygiadau pellach yn y sefydliadau amrywiol wedi'r cytundeb tair blynedd.
- Roedd CCC wedi llunio cynllun grant unigol, yn cynnwys set unigol o amodau, yn cyfuno arian y loteri a Chymorth Grant. Roedd y cynllun hwn bellach wedi bod ar y gweill ers blwyddyn ac wedi gorfodi datblygiad amodau cyfunol safonol o grantiau. Roedd mân ddiwygiadau'n cael eu gwneud ar hyn o bryd i amodau'r grant yn dilyn ymgynghoriad â'r sefydliadau ymbarél a mewnbwn oddi wrth cwsmeriaid refeniw. Byddai ymgynghoriad llawn yn cael eu ymgymryd ag yn hwyrach yn y

flwyddyn gyda'r nôd o wella yr amodau.

- Roedd monitro a gwerthuso'r hyn y caiff yr arian ei wario arno yn bwysig er mwyn sicrhau bod yr arian yn cael ei dargedu'n effeithiol.
- Roedd CCC yn chwilio am fwy o gefnogaeth bob blwyddyn er mwyn cael mwy o gwsmeriaid refeniw. Yn ddiweddar, roedd CCC wedi cymryd cwsmeriaid orielau refeniw newydd o dan ei adain ar raddfa fach, orielau a oedd wedi cael eu rhedeg gan wirfoddolwyr cyn hynny. Roedd cynllluniau gweithredu CCC yn edrych i weld ble roedd y bylchau yng nghefnogaeth CCC i'r sefydliadau a ble roedd angen cryfhau sefydliadau penodol.
- Roedd David Prattley wedi cynnal adolygiad o arddangos celf. I orielau roedd yr adolygiad hwnnw yn berthnasol tra roedd anghenion yr artistiaid hefyd o ddiddordeb i CCC. Roedd CCC hefyd wrthi'n paratoi ei Gynllun Gweithredu Celfyddydau Gweledol a fyddai'n cymryd mewn i ystyriaeth y ddau. Y teimlad oedd bod angen oriel genedlaethol yn y tymor hir ar gyfer y casgliad genedlaethol o gelf o Gymru ac oriel genedlaethol a oedd ddim wedi eu seilio ar gasliad ar gyfer celf gyfoes. Byddai CCC yn barhau I gefnogi orielau rhanbarthol wrth ddatblygu cysylltiadau ag Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru.
- Roedd egwyddor "hyd braich" y Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad yn sylfaenol. Roedd y fframwaith strategol sydd bellach yn ei le yn gydnaws â'r Cynulliad. Lle byddai modd, dylai penderfyniadau cyllido ar gyfer sefydliadau unigol gael eu gwneud trwy CCC ac nid y Cynulliad er mwyn sicrhau tryloywder.
- Roedd celf yn y gymuned hefyd yn cynnwys hyrwyddo cerddoriaeth. Roedd Cerddoriaeth Gymunedol Cymru yn fenter a noddwyd gan CCC.
- Roedd CCC wedi sefydlu partneriaethau ffurfiol â'r awdurdodau lleol ac roedd yn cwrdd yn rheolaidd â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Roedd cynrychiolydd diwylliant pob awdurdod lleol hefyd ar bwyllgorau rhanbarthol CCC.
- Ar hyn o bryd, oherwydd diffyg cyllid ar gyfer adleoli, mae swyddfa ranbarthol De Cymru wedi'i lleoli yng Nghaerdydd.
- Roedd cyllid ychwanegol ar gyfer Gwyl Jazz Aberhonddu wedi bod yn flaenoriaeth i CCC er mwyn sicrhau bod yr Wyl yn parhau. Roedd trafodaethau wedi bod rhwng y Gweinidog a CCC cyn i'r Gweinidog ddyrannu'r cyllid am nad oedd CCC yn gallu ariannu'r fenter gyda'r gyllideb oedd yn weddill am y flwyddyn.
- Roedd astudiaethau dichonoldeb ar gyfer datblygiad consortiwm marchnata yn cael ei ymgymryd ag er mwyn ystyried anghenion yr ardaloedd o Gymru nad oeddent yn cael eu cynnwys eisoes. Roedd angen mwy o fuddsoddiad i alluogi bod gwaith o Gymru yn cael ei weld dramor.
- Diolchodd aelodau'r Pwyllgor i Sybil Crouch am ei gwaith fel Cadeirydd yn ystod cyfnod anodd o ailstrwythuro.

**Pwyntiau Gweithredu**

- CCC i ddarparu rhestr o wyliau diwylliannol yng Nghymru eleni i'r Pwyllgor.
- CCC i ddarparu gwybodaeth fanylach ar bapur am bwyntiau nad oedd ganddynt ddigon o amser i fynd i'r afael â hwy yn y Pwyllgor.

**10.00am tan 10.35am**

**Eitem 3: Adroddiad Misol y Gweinidog**

**CC 06-03(p.2); CC 06-03 (p2) Atodiad A1; CC 06-03 (p2) Atodiad A2; CC 06-03 (p2) Atodiad B**

3.1 Gwnaeth y Gweinidog y pwyntiau canlynol yn ychwanegol at y rhai yn ei hadroddiad:

- Roedd manylion llawn ailaddasiad cyllideb 2002-2003 yn yr adroddiad. Roedd codiad o 30% wedi bod yn ystod 2002-2003.
- Peoples Network Event - byddai digwyddiad yn y neuadd am 1pm yn tynnu sylw at bolisi mynediad am ddim at gyfrifiaduron ym mhob llyfrgell yng Nghymru.

3.2 Gwahoddwyd y Pwyllgor i gyflwyno sylwadau ar adroddiad y Gweinidog. Gwnaed y pwyntiau canlynol:

- Ailadroddodd Alison Halford ei phryder, sef nad oedd y cynllun busnes ar gyfer cais Caerdydd i fod yn Brifddinas Diwylliant Ewrop 2008 wedi ei ryddhau, yn enwedig o ystyried bod y rhaglen deledu "Week In, Week Out" wedi cael copi. Mynegodd bryder hefyd am gyfanswm y cyllid sy'n cael ei sianelu i'r cais a'r diffyg tryloywder o ganlyniad i beidio â rhyddhau'r cynllun busnes. Ychwanegodd y Gweinidog nad oedd ganddi hawl i ryddhau'r cynllun busnes. Dywedodd y Cadeirydd wrth y Pwyllgor fod cofnodion holl gyfarfodydd cais Caerdydd i fod yn Brifddinas Diwylliant 2008 wedi cael eu dosbarthu i'r Pwyllgor. Hefyd, roedd Caerdydd 2008 yn gwneud cyflwyniad i'r Pwyllgor Datblygu Economaidd ar 3 Ebrill ac roedd croeso i holl aelodau'r Pwyllgor fynychu.
- Nofio am ddim yn ystod gwyliau'r ysgol - Awgrymwyd y dylid rhannu cyllid rhwng mynediad am ddim a chludiant yn ôl ac ymlaen o'r cyfleusterau. Dywedodd y Gweinidog fod gofyn i'r awdurdodau lleol edrych ar y posibilrwydd o ddarparu mynediad am ddim i weithgareddau cysylltiedig yn ogystal ag i nofio.
- "Iaith Pawb" - roedd angen gwerthuso canlyniadau'r gwariant ar y "Mentrau Iaith" a monitro ei lwyddiant. Dywedodd y Gweinidog fod cyllid ar gyfer pob Menter Iaith yn amodol ar broses grant blynyddol a bod lefel y cyllid yn seiliedig ar gynnydd y gorffennol a chynlluniau'r dyfodol. Cynhaliodd y Gweinidog chwe chyfarfod misol â Bwrdd yr Iaith Gymraeg i fonitro cynnydd.
- Cyngor Llyfrau Cymru - awgrymwyd nad oedd digon o gapasiti gan y Cyngor i ddelio ag ehangu ei rôl i ymgymryd â chyhoeddi deunydd Saesneg. Dywedodd y Gweinidog fod trosglwyddo cyllid i'r Cyngor yn cymryd ei ddyletswyddau newydd i ystyriaeth. Roedd staff ychwanegol wedi cael eu cyflogi ac roedd cynnydd y Cyngor yn cael ei fonitro'n ofalus.
- Timoedd cenedlaethol Cymru - gofynnwyd a allai timoedd pêl-droed a rygbi Cymru rannu'r un cyfleusterau hyfforddi. Dywedodd y Gweinidog ei bod wedi siarad â David Moffat yn anffurfiol ynghylch y cwestiwn hwn. Roedd hefyd wedi gofyn i Gymdeithas Pêl-droed Cymru (FAW) ddarparu manylion ei chynlluniau rai misoedd yn ôl ond ei bod yn parhau i aros am ymateb. Yn y pen draw fodd bynnag, mater i gyrff llywodraethu rygbi a phêl-droed fydd penderfynu.
- Roedd y gwariant a wnaed gyda'r addasiad i'r gyllideb yn gysylltiedig â chyhoeddiadau a wnaed yn ystod y flwyddyn ac a adroddwyd i'r Pwyllgor yn flaenorol. Cytunodd y Gweinidog i ddarparu rhestr lawn o'r prosiectau hyn er eglurdeb.
- Ty Turner - Awgrymwyd i Gymdeithas Celfyddydau De Cymru, sydd ar hyn o bryd wedi'i lleoli yn Nhy Turner, y dylai edrych am leoliadau amgen ar gyfer ei swyddfa.

**Pwyntiau Gweithredu**

- Y Gweinidog i ddarparu rhestr lawn i'r Pwyllgor o'r prosiectau ychwanegol sy'n cael eu hariannu o fewn y flwyddyn, y ceir manylion amdanynt yn y gyllideb.

**<u>10.35am tan 10.45am</u>**

**Eitem 4: Llyfrgell Genedlaethol Cymru: Cynllun Gweithredu yr Adolygiad Pum Mlynedd**

**CC 06-03 (p3)**

4.1Roedd yr aelodau yn fodlon ar Gynllun Gweithredu Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac fe wnaethant gytuno i drosglwyddo unrhyw sylwadau i'r Gweinidog y tu allan i'r cyfarfod.

_

***Egwyl 10.45am tan 11.00am***

**11.00 tan 11.30am**

**Eitem 5: Adolygiad Pum Mlynedd Cyngor Chwaraeon Cymru - Adroddiad ar yr Ail Gam**

CC 06-03 (p4); CC 06-03 (p6) Atodiad A

Cyflwynwyr: Robin Moulson, Graham Hastings-Evans, Yvonne Barker, Ymgynghorwyr GCL

5.1 Gwahoddwyd y Pwyllgor i roi sylwadau ar Ail Gam adroddiad drafft adolygiad pum mlynedd Cyngor Chwaraeon Cymru. Gwnaed y pwyntiau canlynol:

- Awgrymodd yr adroddiad fod rheolwr prosiect yn cael ei benodi i oruchwylio'r newidiadau a argymhellwyd yn yr Adroddiad.
- Er y nodwyd bod y Cyngor wedi bod yn araf yn y gorffennol yn ymateb i newid, nid oedd yn cael ei weld fel rhwystr i gynnydd yn y dyfodol os bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r is-adran noddi yn rhoi arweiniad clir i'r Cyngor ac os bydd y Cyngor ei hun yn ymateb yn bositif i ganfyddiadau'r adolygiad a her yr agenda newidiol.
- Roedd argymhellion a materion yr Adroddiad wedi cael eu trafod yn agored gyda'r Cyngor Chwaraeon a chytunodd y Cyngor fod yr argymhellion ar y cyfan yn deg. Fodd bynnag, byddai angen adnoddau digonol er mwyn gweithredu'r argymhellion.
- Roedd angen rhannu'r agenda hybu iechyd rhwng iechyd a chwaraeon. Byddai angen i'r ddwy ochr weithredu er mwyn datblygu dealltwriaeth well o sut y gall proffesiynolion ym maes chwaraeon a iechyd wneud cyfraniad ar y cyd yn fwy effeithiol.
- Plas Menai - roedd argymhellion wedi cael eu gwneud ynghylch gweithrediad Plas Menai yn y dyfodol. Un opsiwn fyddai parhau i ariannu'r ganolfan yn yr un modd ag y mae'n cael ei hariannu ar hyn o bryd.
- Roedd angen i'r Cyngor Chwaraeon gryfhau ei rôl eiriolaeth. Byddai angen cydweithio gwell rhwng y cyrff chwaraeon a'r Cyngor Chwaraeon. Ar hyn o bryd, roedd llawer o gyrff llywodraethu chwaraeon Cymru, yn enwedig y cyrff proffesiynol, yn ymddangos fel petaent yn gweld rôl y Cyngor fel un ymylol. Y teimlad oedd bod gan Gyngor Chwaraeon Lloegr berthynas gryfach â chyrff chwaraeon Lloegr, yn enwedig gyda phêl-droed.
- Yn y gorffennol roedd gwendidau wedi bod mewn perthynas â chydymffurfio â'r memoranda ariannol, er nad oedd rheswm i gredu bod hyn yn parhau.
- Roedd angen esboniad manylach ynglyn â pham roedd y Cyngor yn blaenoriaethu cyllid ar gyfer rhai chwaraeon penodol yn hytrach nag eraill. Roedd angen canllawiau clir ar ariannu, fel sydd i'w cael mewn gwledydd eraill.

- Pe bai Athrofa Chwaraeon Cymru yn dod yn ganolfan chwaraeon i'r elît, byddai hyn yn cael effaith ar faich gweinyddol y Cyngor Chwaraeon.
- Byddai adroddiad yr adolygiad pum mlynedd yn cael ei drafod mewn cyfarfod llawn ar ôl yr etholiad.

**<u>11.30am tan 12.15pm</u>**

**<u>Eitem 6: Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru</u>**

**CC-06-03 (p5)**

**Cyflwynwyr: Alan Hayward, Cadeirydd, Evelyn Thurby, Prif Swyddog Weithredol, Yr Athro Diane Edwards, Uwch Gyfarwyddwr Gweithredol**

6.1 Gwnaed y pwyntiau canlynol:

- Roedd brand Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru (GFGC) wedi cael ei newid i "Middleton, Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru". Y teimlad oedd bod angen lleolwr daearyddol ar yr Ardd a'r gobaith oedd y byddai "Middleton", yn y pen draw, yn cael ei ddefnyddio yn yr un modd â "Kew". Dywedodd rhai aelodau nad oedd yr enw'n cynrychioli diben yr ardd a'i fod yn rhy Seisnigaidd.
- Roedd gan GFGC dîm marchnata newydd i helpu i godi ymwybyddiaeth o'r ardd a denu mwy o ymwelwyr. Yn ôl ymchwil i'r farchnad, dim ond 6% o ymwelwyr o'r brif farchnad, sef awr o yrru i ffwrdd, oedd ag ymwybyddiaeth ddi-annog o'r ardd. Roedd GFGC yn anelu at gynyddu nifer yr ymwelwyr 100,000 dros y 5 mlynedd nesaf. Byddai angen buddsoddiad ychwanegol ar gyfleusterau GFGC a'r gobaith oedd y gellid ffurfio perthynas agosach â Chyngor Sir Caerfyrddin yn hyn o beth.
- Roedd GFGC wedi dechrau cynlluniau i wneud yr ardd yn fwy cyfeillgar i'r ymwelwyr. Awgrymwyd adeiladu man chwarae i blant. Roedd nifer o atebion cyflym hefyd wedi cael eu gwneud, megis trên i roi mynediad haws i rai rhannau o'r ardd, gardd apothecari a byrddau a chadeiriau yn ardal y buarth. Y gobaith hefyd oedd cynyddu nifer y planhigion a werthir. Ystyriwyd "Wisley" fel model ar gyfer cynhyrchu refeniw trwy werthu planhigion.
- Roedd Gwyddoniaeth yn chwarae rôl pwysig yn GFGC. Roedd y WDA wedi gwneud darpariaeth ar gyfer lleoli biotechniwm yn yr ardd.
- Daeth tua 20,000 o blant i ymweld â'r Ardd y llynedd. Fodd bynnag, roedd cyfleusterau addysgol yr ardd ar hyn o bryd yn gyfyng ac roedd angen eu gwella.
- Dywedwyd bod yr Eden Project yn wahanol i Ardd Fotaneg Genedlaethol Cymru am fod Cernyw yn denu 3 miliwn o bobl ar eu gwyliau bob blwyddyn a fyddai'n ymweld â'r Eden Project pan fyddai'r tywydd yn wael. Yn ogystal, roedd gan y bensaernïaeth a'r tu mewn eiconig y ffactor "wow". Fodd bynnag, roedd gan GFGC y fantais naturiol o ran lleoliad â golygfeydd bendigedig.
- Nid oedd yr £1 miliwn o gyllid ychwanegol a oedd wedi'i ddyrannu i GFGC yn benagored. Y bwriad oedd ei wario ar farchnata ac ymchwil i'r farchnad, hyfforddiant a chreu mwy o swyddi garddwriaethol. Awgrymwyd y dylai'r Ardd Fotaneg adrodd yn ôl i'r Pwyllgor newydd yn yr hydref ar ei chynnydd.

**<u>12.15pm</u>**

**<u>Eitem 7: Y Papur Etifeddiaeth Drafft a'r Blaengynllun Gwaith</u>**

**CC 06-03 (p6)**

1. Cytunodd yr Aelodau ar yr adroddiad. Cytunodd yr Aelodau hefyd i roi ar gofnod eu safbwynt, sef bod creu'r Pwyllgor Diwylliant wedi bod yn fuddiol.

**12.30pm**

**Eitem 8: Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol**

**CC 05-03 (min)**

8.1 Awgrymwyd sawl newid i gofnodion y cyfarfod blaenorol:

- Dosbarthwyd newidiadau i'r Aelodau cyn y cyfarfod ynghylch pwyntiau a wnaed gan Alison Halford am Ganolfan Mileniwm Cymru a Chais Caerdydd i fod yn Brifddinas Diwylliant Ewrop 2008.
- Paragraff 1.3 - dylai'r ffigur yn y pwynt bwled cyntaf fod yn £1.382 miliwn ac nid £1.5 miliwn.
- Paragraff 4.1 - dylai'r ffigur fod yn £30,000 ac nid £130,000.

**Gwasanaethau'r Pwyllgorau ac Ymchwil yr Aelodau Mawrth 2003**